**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Farwnes Grey-Thompson
Cadeirydd
Brian Davies
Prif Weithredwr
Chwaraeon Cymru

13 Rhagfyr Tachwedd 2023

**Gwaith Craffu Blynyddol ar Waith Chwaraeon Cymru**

Annwyl Tanni a Brian

Diolch am ddod i'r sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Pwyllgor ddydd Mercher 8 Tachwedd 2023, a diolch am y llythyr dyddiedig 7 Rhagfyr 2023. Rydym yn ddiolchgar i chi am ateb ein cwestiynau. Yn dilyn ein trafodaeth, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ychwanegol isod i ni.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu gwybodaeth am ganran y cyfleusterau chwaraeon sydd wedi'u lleoli y tu ôl i gatiau'r ysgol, fel y soniwyd yn ystod ein cyfarfod. Hoffem hefyd wybod mwy am yr unedau uniondeb yn Awstralia, Seland Newydd a Chanada y gwnaethoch sôn amdanynt.

Rydym yn deall bod eich cyflawniadau allweddol yn cael eu gosod yn erbyn cefndir anodd o ostyngiadau mewn termau real yn eich cyllid, yr argyfwng costau byw sy'n effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf yn benodol, a'r bylchau economaidd-gymdeithasol sy'n ehangu o ran y rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. O ystyried mai byr yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau fel rhan o'r gwaith craffu seneddol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu unrhyw faterion penodol y dylem eu hystyried yn ystod y gwaith craffu hwnnw yn eich barn chi, a hynny erbyn 3 Ionawr 2024 fan bellaf.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.